CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 11 GORFFENNAF 2007 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. D H Roberts (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Y Parch. H M Davies (Aelod)	Mr. D Carr
	Mrs. L Brough

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 14 MEHEFIN 2007

2.1 Cytunwyd â'r rhain ar yr amod y gwnaed mân newidiadau.

3. MATERION YN CODI

Arolygiadau Cymunedol

3.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cadarnhau y byddai'n gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal arolygiad llawn o'r cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

3.2 Adroddwyd bod Cyngor Sir Penfro wedi dechrau ei arolygiad cymunedol.

3.3 Adroddwyd bod Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi rhoi gwybod i'r Comisiwn am eu bwriad i gynnal arolygiad o'i gymunedau cyn bo hir.

3.4 Adroddodd yr Ysgrifennydd y cynhaliwyd cyfarfod rhwng swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, y Comisiwn a'r Is-adran Noddi, ac y cytunwyd y byddai'r Cyngor yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn gynnal arolygiad llawn o'r cymunedau yng Nghaerffili.

3.5 **Cytunwyd** mai'r terfyn ar gyfer cynnal arolygiadau cymunedol fyddai pan fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn gynnal arolygiad etholiadol. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn cynhyrchu adroddiad ar gyfer cyfarfod mis Medi sy'n gwerthuso'r sefyllfa o ran arolygiadau cymunedol presennol ac yn y dyfodol, a'r effaith ar ofynion staffio ac amserlen yr arolygiadau cymunedol.

3.6 Roedd y Comisiwn o'r farn y dylid codi'r sefyllfa o ran yr anawsterau a'r peryglon posibl a wynebir gan y Comisiwn wrth gynnal yr arolygiadau cymunedol ac etholiadol yn ystod ei gyfarfod â'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol ym mis Medi.

3.7 Adroddwyd y byddai adroddiad drafft Ynys Môn yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf 2007.

Llety

3.8 Adroddodd yr Ysgrifennydd y byddai llety ar gael i'r Comisiwn yng Ngogledd Cymru oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru petai ei angen.

Cyfarfod Agored Cyffredinol Blynyddol

3.9 Adroddwyd y cadarnhawyd lleoliad CACB 2007 ar gyfer 8 Hydref 2007, ac y byddai'n cael ei gynnal yng Ngwesty'r Copthorne.

Gliniadur

3.10 Adroddwyd bod y gliniadur i'r Dirprwy Gadeirydd wedi'i archebu erbyn hyn, ac y byddai'n cael ei dderbyn yn fuan.

4. AROLYGIAD O'R CYMUNEDAU YM MWRDEISTREF SIROL WRECSAM – ADRODDIAD YNGLŶN Â'R CYNIGION TERFYNOL

Mwynglawdd / Coed-poeth

4.1 Ystyriodd y Comisiwn y paragraffau ychwanegol y cynigiodd y Dirprwy Gadeirydd eu hychwanegu at yr adroddiad, a chytunwyd ar y rhain.

Thornleigh

4.2 Adroddwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cadarnhau na fyddai'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Thornleigh yn cael ei gwblhau tan 2010. **Cytunwyd** y byddai brawddeg at y diben hwn yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ym mharagraff 6.10.

Brychdyn a Brymbo

4.3 Adroddwyd y cynhaliwyd ail ymweliad â safle'r ffin rhwng cymunedau Brychdyn a Brymbo i edrych ar y newidiadau a awgrymwyd gan y Cynghorydd Wilkinson. Cadarnhaodd yr ymweliad â'r safle farn y Cynghorydd Wilkinson na ddylid trosglwyddo ardal Parc Brynmally / Heol yr Orsaf i Brymbo am fod ganddo fwy o affinedd â Brychdyn. Roedd y Cynghorydd Wilkinson hefyd o'r farn bod gan y Lodge affinedd â Brychdyn a Brymbo ill dau, ond cysylltiadau ychydig yn gryfach â Brychdyn. Cadarnhaodd yr ymweliad â'r safle bod hyn yn wir hefyd. **Cytunwyd** y dylai adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Brychdyn a Brymbo, a fabwysiadwyd ar gyfer y Cynigion Terfynol, adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Wilkinson a chanfyddiadau'r ymweliad â'r safle.

Gwersyllt / Llai

4.4 Nodwyd y gosodwyd paragraff ychwanegol yn yr adroddiad i esbonio na fu modd i'r Comisiwn edrych ar y ffin rhwng Cymunedau Gwersyllt a Llai am nad oedd Llai wedi'i gynnwys yn y cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Sesswick / Marchwiel

4.5 Adroddwyd y byddai paragraff ychwanegol yn cael ei osod yn yr adroddiad hwn i esbonio pam na fyddai'r cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Sesswick i adlinio'i ffin â Marchwiail ar hyd ffordd a gynlluniwyd ond a oedd heb ei hadeiladu yn cael ei fabwysiadu.

Trefniadau Etholiadol Ôl-ddilynol

4.6 Cytunwyd y dylai Cymuned Holt fod yn ddi-ward ac y dylid lleihau ei chynrychiolaeth o 11 Cynghorydd i 10.

4.7 Nodwyd y byddai'r trefniadau etholiadol ar gyfer Brymbo a Brychdyn yn newid o ganlyniad i'r penderfyniad i newid y cynigion ar gyfer y ffin.

4.8 Cytunwyd newidiadau etholiadol y Fwrdeistref Sirol.

Cynlluniau Datblygu Lleol

4.9 **Cytunwyd** y byddai'r llythyr at Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a anfonwyd gydag adroddiad Cynigion Terfynol y Comisiwn, yn ei wneud yn ofynnol iddynt ystyried y ffiniau cymunedol newydd wrth gynhyrchu cynlluniau datblygu ar gyfer y dyfodol.

5. TRAFOD AROLYGIADAU ETHOLIADOL

5.1 Trafododd y Comisiwn heriau posibl y gellid eu cael wrth gynnal yr arolygiad etholiadol a oedd ar ddod. Y gobaith oedd y byddai modd i'r awdurdodau lleol ddarparu rhagolygon cywirach o ffigurau etholiadol nag a gafwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Roedd yn debygol mai'r brif her fyddai cyhoeddi unrhyw gyfarwyddiadau amserol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ystyriwyd y byddai'n bosibl i'r Cynulliad, efallai, gynnwys amserlen gyffredinol ar gyfer yr arolygiad fel rhan o'u llythyr cylch gwaith blynyddol at y Comisiwn, yn hytrach na chyhoeddi cyfarwyddiadau fel y cyfryw, os mai amseru oedd yr unig bwnc yr oedd y Gweinidog yn dymuno dylanwadu arno.

5.2 Ystyriwyd bod yn rhaid i'r rheolau ar gyfer cynnal arolygiadau etholiadol, a nodir yn Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Leol, fod yn fan cychwyn ar gyfer cynnal yr arolygiad. Er nad oedd y rheolau yn y ddeddfwriaeth yn nodi y dylid defnyddio cymunedau ac wardiau cymunedol i ffurfio adrannau etholiadol, eu bod yn nodi na ddylid torri rhwymau lleol ac y dylai pob ward gymunedol a chanddi gyngor cymunedol a phob cymuned di-ward orwedd yn gyfan gwbl oddi mewn i un adran etholiadol. Felly, byddai'n anodd cydymffurfio â'r rheolau pe na bai cymunedau a wardiau cymunedol yn cael eu defnyddio fel blociau adeiladu.

5.3 Nodwyd nad yw'r Ddeddf yn cyfyngu ar nifer y cynghorwyr ar gyfer pob awdurdod lleol. Roedd uchafswm ar gyfer nifer y Cynghorwyr ar gyfer pob awdurdod lleol yn debygol gael ei fanylu mewn unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn absenoldeb unrhyw gyfarwyddiadau, byddai'n ofynnol i'r Comisiwn gytuno ar uchafswm y cynghorwyr ar gyfer pob awdurdod lleol unigol, gan ystyried ffactorau e.e. newidiadau yn yr etholaeth ar sail y trefniadau etholiadol cyfredol. Fodd bynnag, gallai cynyddu'n sylweddol aelodaeth awdurdod lleol arwain at anawsterau o ran dod o hyd i ddigon o ymgeiswyr sy'n dymuno sefyll i gael eu hethol, a thrwy hynny, o bosibl gynyddu nifer y seddi heb eu cystadlu.

5.4 Ystyriwyd na ddylai unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i'r Comisiwn fanylu pa adrannau etholiadol y gellid eu hystyried ar gyfer aml-aelodaeth, am fod y cyfyngiad hwn wedi achosi heriau sylweddol wrth gynnal yr arolygiad etholiadol blaenorol.

5.6 **Cytunwyd** y byddai angen ysgrifennu at y Gweinidog dros Lywodraeth Leol cyn y cyfarfod ar 17 Medi 2007 i drafod a fyddai cyfarwyddiadau yn cael eu cyhoeddi i'r Comisiwn ac ar ba ffurf.

5.7 Nodwyd bod y Comisiwn Etholiadol wedi cynnal ymgynghoriad yn 2005 ynghylch arolygiadau etholiadol lleol yn Lloegr, a wnaed gan Bwyllgor Ffiniau Lloegr, gyda'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar sut y gellid gwella'r dull o gynnal arolygiadau etholiadol yn y dyfodol. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn canfod beth fu'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

6. UNRHYW FATER ARALL

Y weithdrefn gwyno

6.1 Adroddwyd bod ymgynghorydd cyfreithiol y Comisiwn wedi cadarnhau nad oedd y Comisiwn yn dod o dan awdurdod yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol ond ei fod yn dod o dan awdurdod y Comisiynydd Gwybodaeth o ran cwynion a gynhwysir gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Cytunwyd rhoi paragraff ychwanegol i nodi hyn yn y Weithdrefn Gwyno.

Trefniadau Archwilio

6.2 Adroddwyd y cafwyd ymateb oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru a nodai sylwadau'r Comisiwn o ran newid y partner archwilio allanol. Esboniodd y llythyr y byddai barn y Comisiwn yn cael ei hystyried cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Mater Staffio

6.3 Adroddwyd y bu ymgeisydd yn llwyddiannus wrth geisio am swydd Cynorthwyydd Arolygu a hysbysebwyd, ac y byddai'n dechrau'r swydd ar 3 Medi 2007.

Penodi

6.4 Adroddwyd bod proses penodi ar y cyd ar gyfer aelodau newydd o Gomisiwn Ffiniau i Gymru a Chomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar y gweill ar hyn o bryd. Byddai fformat y weithdrefn yn cael ei gytuno gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

7.1 **Cytunwyd** mai 17 Medi 2007 fyddai dyddiad y cyfarfod nesaf, ar ôl y cyfarfod â'r Gweinidog, a fyddai'n cychwyn am 12 canol dydd.